# TÎM IECHYD A DIOGELWCH CORFFORAETHOL CYNGOR BWRDEISTREF SIROL TORFAEN

# TREFNIADAU AR GYFER RHEOLI ASBESTOS

Please note that all of our policies are fully inclusive of all staff regardless of age, marriage (including equal/same sex marriage) and civil partnership, disability, sex, sexual orientation, pregnancy and maternity, race, religion or belief, gender identity and gender expression.

Nodwch os gwelwch yn dda bod y trefniadau yn y ddogfen hon yn cynnwys holl staff yn llawn, beth bynnag eu hoedran, statws priodasol (gan gynnwys priodas gyfartal/yr un rhyw) a phartneriaeth sifil, anabledd, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, hunaniaeth rywiol a mynegiant rhyw.

## Mynegai


| Mynegai | Tudalen |
|---|---|
| Datganiad | 3 |
| Gofynion Statudol | 4 |
| 1. Sefydliad | 5-10 |
| 2. Camau gweithredu | 11-16 |
| 3. Gweithdrefnau | 17 |
| 4. Monitro ac Adolygiad | 18 |
| ATODIAD | |
| 1. Gweithdrefnau Argyfwng | |

## Datganiad

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod asbestos yn bresennol mewn rhannau o'r adeiladau sydd o dan ei reolaeth a bod angen strategaeth effeithiol a gweithdrefnau cysylltiedig er mwyn rheoli'r risgiau i staff, disgyblion ac ymwelwyr.

Gwneir pob ymdrech i leihau'r risg i'r staff, disgyblion, ymwelwyr, ymgynghorwyr a chontractwyr trwy reoli gwaith yn effeithiol ble mae deunyddiau asbestos yn bresennol.

Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn sicrhau'r trefniadau canlynol:

- Arolygon asbestos sy'n nodi ac yn asesu ffynonellau o risg o asbestos.
- Cofrestr Asbestos sy'n hygyrch i bob aelod o staff mewnol ac allanol a allai ddod i gysylltiad ag asbestos fel rhan o'u gwaith.
- Cynllun Rheoli (mewn dwy ran - Rhan 1, y Trefniadau yma a'r asesiad risg, a Rhan 2, y cynllun rheoli sy'n benodol i safleoedd, y gofrestr a'r arolwg) sy'n cyflwyno mesurau rheoli sy'n ystyried yr asesiad risg ac sy'n atal neu'n lleihau'r risg o fod yn agored i asbestos.
- Arferion Gwaith Diogel i gydymffurfio â'r Trefniadau ar gyfer rheoli asbestos.
- Uwch reolwr enwebedig i oruchwylio a gweithredu'r Trefniadau ar gyfer rheoli asbestos ac agweddau eraill o'r Cynllun Rheoli.
- Gweithdrefnau monitro a chofnodi i sicrhau bod y mesurau a gyflwynir yn ddigonol ac yn effeithiol.
- Hyfforddiant rheolaidd i bob unigolyn perthnasol i sicrhau bod ganddyn nhw lefel o wybodaeth a gallu sy'n gyson â'u hymwneud â'r gweithdrefnau rheoli.
- Adolygiadau o asesiadau risg yn flynyddol neu os oes unrhyw newidiadau arwyddocaol yn digwydd i'r system.
- Adolygiadau o'r Trefniadau yn flynyddol ac yn gynharach os oes unrhyw ddeddfwriaeth wedi ei chyflwyno neu ei diwygio.

# Gofynion Statudol

Bwriad y Trefniadau yma yw sicrhau bod yr Awdurdod yn bodloni gofynion cyfreithiol:

- Mae'r **Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc. 1974** (HASAWA) yn mynnu bod cyflogwr yn gweithio mewn ffordd sy'n sicrhau nad yw cyflogeion yn agored i risgiau iechyd a diogelwch, a'u bod yn rhoi gwybodaeth i bobl eraill am eu gweithle a allai effeithio ar eu hiechyd a'u diogelwch.
- Mae **Rheoliadau Rheolaeth Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999** yn mynnu bod cyflogwyr a phobl hunangyflogedig yn gwneud asesiad o'r risg i iechyd a diogelwch nhw eu hunain, cyflogeion a phobl nad ydynt yn gweithio iddyn nhw sy'n codi allan o neu o gysylltiad â rheolaeth eu busnes – a gwneud trefniadau priodol ar gyfer gwarchod iechyd a diogelwch y bobl yma.
- Mae **Rheoliadau Gweithleoedd (Iechyd, Diogelwch a Lles) 1992** yn cyflwyno dyletswyddau i gynnal adeiladau/eiddo y gweithle i warchod y rheiny sydd yno a gweithwyr.
- Mae **Rheoliadau Adeiladwaith (Dyluniadau a Rheolaeth) 2015** yn mynnu bod y cleient yn trosglwyddo gwybodaeth am gyflwr unrhyw eiddo (gan gynnwys presenoldeb unrhyw ddeunyddiau peryglus fel asbestos) i'r Cydlynydd DRhA cyn i unrhyw waith ddechrau a sicrhau bod y ffeil iechyd a diogelwch ar gael i'w gweld gan unrhyw berson sydd ag angen am y wybodaeth.
- Mae **Rheoliadau Rheolaeth Asbestos 2012** (RhRhA) yn mynnu bod cyflogwyr yn atal bod eu cyflogeion yn agored i asbestos, neu, ble nad yw hyn yn ymarferol, gostwng hynny i'r lefel isaf posibl. Mae'r RhRhA yn cynnwys rheoliad sy'n gosod dyletswydd ar y rheiny sydd â chyfrifoldebau atgyweirio a chynnal a chadw ar gyfer eiddo annomestig i reoli'r risg o asbestos yn yr eiddo hynny. Ble nad oes yna gytundeb neu denantiaeth, y sawl sy'n rheoli mynediad fydd deiliad y ddyletswydd. Mae dyletswydd ar bartïon eraill i gydweithredu hefyd. Mae'r rheoliadau'n diffinio 'gwaith trwyddedadwy' a dilead penodol y defnydd sy'n berthnasol i waith nad yw'n drwyddedadawy.
- Y Cod Ymarfer Cymeradwy sy'n cefnogi'r rheoliadau yw **'Rheoli a gweithio gydag asbestos' L143**.
- Bydd pob arolwg yn cael eu sicrhau a'i gwneud yn unol â **HSG 264 Asbestos – The Survey Guide**

# 1. Sefydliad

## 1.1 Cyfrifoldeb Deiliad y Ddyletswydd:

Mae Rheoliadau Rheolaeth Asbestos 2012 yn mynnu bod 'deiliad y ddyletswydd' i reoli asbestos mewn eiddo annomestig. Ni all cyfrifoldebau cyfreithiol deiliad y ddyletswydd gael eu dirprwyo, ond gall deiliaid enwebu eraill i wneud y cyfan neu ran o'r gwaith i gynorthwyo gyda chydymffurfio â'r dyletswyddau.

Mae gofyn i ddeiliad y ddyletswydd:

- cymryd camau rhesymol i ganfod a oes yna ddeunyddiau sy'n cynnwys asbestos mewn eiddo annomestig, ac, os felly, faint, ble mae hynny ac ym mha gyflwr mae;
- tybio bod deunyddiau'n cynnwys asbestos oni bai bod yna dystiolaeth gref i'r gwrthwyneb;
- gwneud a chadw cofnod o leoliad a chyflwr y deunyddiau sy'n cynnwys asbestos - neu ddeunyddiau y tybir eu bod yn cynnwys asbestos;
- asesu'r risg o fod unrhyw un yn mynd yn agored i ffibrau o'r deunyddiau a nodir;
- paratoi cynllun sy'n gosod gerbron yn fanwl sut bydd y risgiau o'r deunyddiau yma'n cael eu rheoli;
- cymryd y camau angenrheidiol i weithredu'r cynllun;
- adolygu a monitro'r cynllun a'r trefniadau yn achlysurol er mwyn gweithredu ar hynny fel bod y cynllun yn parhau'n berthnasol ac yn gyfredol; a
- rhoi gwybodaeth am leoliad a chyflwr y deunyddiau i unrhyw un sy'n debygol o weithio arnyn nhw neu ymyrryd â nhw.

Mewn perthynas ag eiddo Torfaen, deiliad y ddyletswydd yw'r sawl sydd â chyfrifoldeb eglur am gynnal a chadw neu atgyweirio eiddo annomestig sy'n dibynnu ar y ddeiliadaeth a'r brydles:

1. Ar gyfer eiddo Corfforaethol (pob adeilad sy'n eiddo i Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen gan gynnwys pob ysgol, waeth beth eu statws fel cyflogwr) ac eiddo Torfaen sydd wedi eu gosod i feysydd gwasanaeth Torfaen, deiliad y ddyletswydd yw'r Pennaeth Eiddo yn y Gwasanaethau Cymdogaethau a fydd yn sicrhau bod y prosesau mewn grym ar gyfer y ddyletswydd a restrir uchod.
2. Ar gyfer eiddo Torfaen sydd wedi eu gosod i drydydd parti trwy gytundeb penodol fel cytundeb tenantiaeth neu gytundeb gyda phrydles atgyweirio a chynnal a chadw llawn, rhennir cyfrifoldeb deiliad y ddyletswydd fel a ganlyn:



TORFAEN COUNTY BOROUGH BWRDEISTREF SIROL TORFAEN

**Bydd Pennaeth Eiddo CBST yn:**

- cymryd camau rhesymol i ganfod a oes yna ddeunyddiau sy'n cynnwys asbestos mewn eiddo annomestig, ac, os felly, faint, ble mae hynny ac ym mha gyflwr mae;
- gwneud a chadw cofnod o leoliad a chyflwr y deunyddiau sy'n cynnwys asbestos - neu ddeunyddiau y tybir eu bod yn cynnwys asbestos;
- rosglwyddo'r arolwg i'r tenant

**Bydd gofyn i'r Tenant:**

- asesu'r risg o fod unrhyw un yn mynd yn agored i ffibrau o'r deunyddiau a nodir;
- paratoi cynllun sy'n gosod gerbron yn fanwl sut bydd y risgiau o'r deunyddiau yma'n cael eu rheoli;
- cymryd y camau angenrheidiol i weithredu'r cynllun;
    - adolygu a monitro'n gyson y cynllun a'r trefniadau er mwyn gweithredu ar hynny fel bod y cynllun yn parhau'n berthnasol ac yn gyfredol; a
    - rhoi gwybodaeth am leoliad a chyflwr y deunyddiau i unrhyw un sy'n debygol o weithio arnyn nhw neu ymyrryd â nhw.

## 1.2 Swyddog Gweithlu a Rheolaeth Asbestos

Mae'r Swyddog Gweithlu a Rheolaeth Asbestos yn cynorthwyo deiliad y ddyletswydd i gyflawni ei ddyletswyddau gyda'r cyfrifoldebau canlynol:

- Dweud am ofynion adnoddau wrth ddeiliad statudol y ddyletswydd er mwyn sicrhau bod gan bob eiddo gynllun rheolaeth asbestos addas a digonol.
- Sicrhau pob Arolwg Rheolaeth Asbestos yn unol â gofynion HSG 264(ASBESTOS: THE SURVEY GUIDE)
- Creu asesiad risg ar gyfer pob eiddo yn seiliedig ar yr arolwg rheolaeth a fydd yn cael ei gofnodi yng nghronfa data Ffibrosis Ysgyfeiniol a'i gynnwys yn y Cynllun Rheolaeth Asbestos (Rhan 2) ar bob safle.
- Cyfatebu cynllun rheolaeth asbestos a chofrestr ar gyfer pob eiddo i'w galluogi i reoli Deunyddiau sy'n Cynnwys Asbestos ar y safle:
- Sicrhau bod gan bob eiddo gynllun rheolaeth asbestos a chofrestr
- Sicrhau bod y cynllun rheoli asbestos a'r gofrestr yn cael eu cyflenwi i bob eiddo a'u rhoi i reolwr yr eiddo a staff perthnasol i esbonio'r cynllun rheoli a'r gofrestr a'u rolau a'u cyfrifoldebau yn ein Trefniadau ar gyfer rheoli asbestos.
- Nodi a blaenoriaethu gwaith gostegu sy'n codi o arolygon a dweud am ofynion wrth ddeiliad y ddyletswydd er mwyn ystyried adnoddau.

- Cymryd samplau o ddeunyddiau amheus a allai gynnwys asbestos yn unol â deddfwriaeth gyfredol a chanllawiau'r Awdurdod Iechyd a Diogelwch.
- Rhoi cyngor a gwybodaeth am ddeddfwriaeth neu gyfarwyddyd mewn perthynas ag asbestos a deunyddiau sy'n cynnwys asbestos.
- Mynychu'r safle i asesu gofynion pan fo'r weithdrefn argyfwng asbestos yn cael ei chychwyn.
- Caffael contractwyr gwaredu asbestos cymwys yn unol â Rheoliadau Asbestos.
- Ysgrifennu at y contractwr i wneud cais am ildiad o'r cyfnod rhybudd o 14 diwrnod ar gyfer gwaith brys trwyddedig ble mae gofyn am hynny.
- Gweithredu fel cynghorwr arbenigol ble mae angen arolygon adnewyddu a dymchwel.
- Trefnu a/neu gwblhau archwiliadau blynyddol o arolygon rheolaeth a diweddaru cofnodion yn briodol.
- Dweud am unrhyw ddigwyddiadau o ddinoethiad posibl ar ôl cael eu rhybuddio am hynny gan Reolwr y Tîm Iechyd a Diogelwch - h.y. Rheolwr AD ar gyfer Gweithrediadau
- Dweud am unrhyw fethiant i gydymffurfio gyda'r trefniadau yma i Reolwr y Tîm Iechyd a Diogelwch – h.y. Rheolwr AD ar gyfer Gweithrediadau.
- Rheoli'r broses arolygon gan gynnwys trefniadau cytundebol ac adrodd, ansawdd a defnydd wedyn o'r data.
- Cynnal a diweddaru cronfa data modiwl rheolaeth asbestos Ffibrosis Ysgyfeiniol o system rheolaeth asedau Ffibrosis Ysgyfeiniol.
- Sicrhau bod Contractwyr sy'n gweithio fel rhan o'r Fframwaith Gwasanaethau Eiddo yn cael eu hyfforddi yn y Trefniadau.
- Sicrhau bod pob dogfen, cynlluniau rheoli, etc. mewn perthynas ag asbestos yn cael eu cadw am o leiaf 40 mlynedd.

## 1.3 Rheolwyr Eiddo

Bydd pob person a ddynodir yn rheolwr eiddo yn:

- Derbyn ac yn rheoli copi o'r cynllun rheoli asbestos a'r gofrestr sy'n berthnasol i'r eiddo y maen nhw'n eu rheoli; cyflwyno canfyddiadau a goblygiadau i bob cyflogai perthnasol, gan gynnwys y rheiny a allai fod yn dirprwyo pan fyddant yn absennol.
- Gweithredu'r arolygiadau chwarterol neu dymhorol (ysgolion) o ddeunyddiau sy'n cynnwys asbestos sy'n cael eu rheoli yn yr adeilad
- Sicrhau bod caniatâd y Landlord yn cael ei geisio amdano cyn unrhyw waith adnewyddu, newid defnydd, ceblo data; adnewyddu carpedi er mwyn derbyn cyngor a chyfarwyddyd o bresenoldeb Deunyddiau sy'n Cynnwys Asbestos a gofynion arolygu pellach,
- Sicrhau bod proses yn bodoli i sicrhau bod y broses 'awdurdod i weithio' wedi ei chwblhau cyn i unrhyw gontractwr neu berson wneud unrhyw waith

a allai darfu ar Ddeunyddiau sy'n Cynnwys Asbestos
- Sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhoi i unrhyw reolwyr eraill sydd â rheolaeth dros rannau penodol o fewn adeilad. Er enghraifft, arlwyo yn rheoli cegin mewn ysgol.
- Sicrhau bid unrhyw gyflogai o'r Awdurdod sy'n ymgymryd ag unrhyw waith yn yr adeilad (e.e. dyn da ei law, gofalwr) wedi ei hyfforddi mewn 'Ymwybyddiaeth Asbestos' a'i fod wedi derbyn cyfarwyddyd gan y Swyddog Asbestos a Gweithlu am y Cynllun Rheoli Asbestos a'r Gofrestr Asbestos.
- Sicrhau bod y staff i gyd yn ymwybodol o'r drefn ar gyfer argyfwng ar gyfer tarfu posibl ar Ddeunyddiau sy'n Cynnwys Asbestos.
- Dirprwyo person cymwys (wedi ei hyfforddi mewn ymwybyddiaeth ac sydd wedi derbyn cyfarwyddyd gan y Swyddog Asbestos a Gweithlu ar y Cynllun Rheolaeth Asbestos a'r Gofrestr Asbestos) i ymgymryd ag a chofnodi archwiliadau o gyflwr yr asbestos sydd yn dal i fod yn ei lle yn ôl gofynion y cynllun rheolaeth asbestos a sicrhau bod unrhyw broblemau'n cael eu hadrodd ar y Ddesg Gymorth Eiddo neu'r Swyddog Asbestos a Gweithlu. Mewn achosion o ganfod difrod a allai arwain at ddinoethiad, rhaid dilyn y weithdrefn argyfwng asbestos.

## 1.4 Tîm Rheoli Asedau

- Bydd y tîm Rheoli Asedau yn sicrhau bod prydlesau ac amodau ar gyfer adeiladau y maen nhw'n gosod i eraill, neu adeiladau sydd ar osod i'r Cyngor gan eraill yn nodi'n benodol manylion y gofynion ar ddeiliad y ddyletswydd ar gyfer rheoli asbestos.
- Cedwir yr holl ddata mewn perthynas ag arolygon asbestos ac asesiadau risg yn y gronfa ddata Ffibrosis Ysgyfeiniol a gedwir ar hyn o bryd gan Reolaeth Asedau.

## 1.5 Bydd y Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yn:

- Sicrhau bod hyfforddiant addas ar reolaeth asbestos ac ymwybyddiaeth asbestos ar gael (wedi ei hysbysebu ac â chyhoeddusrwydd iddo trwy'r cyfeirlyfr hyfforddiant iechyd a diogelwch).
- Sicrhau bod y Trefniadau i reoli asbestos yn cael eu hadolygu, ar y cyd gyda'r Swyddog Asbestos a Gweithlu, o leiaf pob blwyddyn er mwyn sicrhau eu bod yn gyson â deddfwriaeth gyfredol.
- Sicrhau bod y Swyddog Asbestos a Gweithlu'n cael gwybod am unrhyw benodiadau newydd o Reolwyr Eiddo, fel y gall gyfarfod â nhw i roi hyfforddiant iddyn nhw ynglŷn â'u cyfrifoldebau wrth reoli asbestos ar y safle.
- Rhoi cyngor a gwybodaeth am ddeddfwriaeth neu gyfarwyddyd mewn perthynas ag asbestos a deunyddiau sy'n cynnwys asbestos.

- Monitro cyflwyniad effeithiol y Trefniadau yma.
- Law yn llaw â'r Adran Archwilio Mewnol, archwilio cydymffurfiad â'r Trefniadau yma.
- Dweud am ddigwyddiadau o dan Reoliadau Adrodd Anafiadau, Heintiau a Digwyddiadau Peryglus 2013 (RIDDOR);
- Ar y cyd gyda Rheolwr y Tîm Iechyd a Diogelwch (h.y. Rheolwr Gweithrediadau AD) a'r Swyddog Asbestos a Gweithlu, ymchwilio i ddigwyddiadau sy'n arwain at ryddhad afreolus o ffibrau asbestos a sicrhau bod cofnod yn cael ei wneud ar ffeil personél unrhyw unigolyn a allai fod wedi bod yn agored i ffibrau asbestos yn codi o ryddhad afreolus o ffibrau asbestos;

## 1.6 Iechyd Galwedigaethol

- Cynnig i reolwyr a chyflogeion cyfarwyddyd a chyngor ar amrywiaeth o faterion yn effeithio ar iechyd a lles cyflogeion a'u hamgylchedd gwaith. Mae hyn yn cynnwys cyngor ac effeithiau posibl ar iechyd o ddinoethiad at asbestos.
- Cynnig cynghori anffurfiol i aelodau staff y mae'n hysbys neu fe dybir eu bod wedi bod yn agored i ddeunyddiau asbestos ac fe ystyrir bod cynghori'n briodol;
- Cynnal a chadw cofnodion o wyliadwriaeth iechyd cyflogeion Gwaith Annhrwyddedig gydag asbestos am 40 mlynedd. Cedwir y cofnodion am ddeugain mlynedd.
- Cadw cofnodion am unrhyw unigolyn a allai fod wedi bod yn agored i ffibrau asbestos yn deillio o ryddhad afreolus o ffibrau asbestos;

## 1.7 Bydd unrhyw un sy'n rhoi cyfarwyddiadau (adeiladwaith/ceblo data/gosod carpedi/addurno) i gontractwyr yn:

- Sicrhau bod pob contractwr wedi eu hachredu i gynllun aelodaeth SSIP (Cynlluniau Diogel mewn Caffael).
- Sicrhau bod gan unrhyw gontractwyr a gyflogir o leiaf yr hyn sy'n ofynnol o hyfforddiant ymwybyddiaeth asbestos ac, os ydyn nhw'n gweithio gydag asbestos, bod ganddyn nhw'r hyfforddiant a thrwyddedau cywir.
- Sicrhau bod gwybodaeth am bresenoldeb asbestos yn cael ei throsglwyddo fel rhan o'r wybodaeth cyn-adeiladwaith er mwyn sicrhau darpariaeth ar gyfer amser addas a bod y trefniadau yma'n cael eu gosod mewn perthynas â phob gwaith.
- Rhoi gwybodaeth, cyn i unrhyw waith ddechrau, am leoliad unrhyw ddeunyddiau sy'n cynnwys asbestos sy'n hysbys neu a amheuir wrth roi cyfarwyddiadau i gontractwyr a chytuno ar sut bydd y gwaith yn cael ei wneud yn ddiogel.

- Cydweithredu gyda Rheolwyr Adeilad/Safle fel y gall eu rhwymedigaethau gael eu bodloni.
- Sicrhau, ble mae gwaith hysbysadwy'n cael ei wneud ar ddeunyddiau sy'n cynnwys asbestos, bod dadansoddwyr achrededig annibynnol UKAS (Gwasanaeth Achredu'r Deyrnas Unedig) yn cael ei benodi a fydd yn rhoi tystysgrif o ailfeddiannu. Rhaid i'r dadansoddwr annibynnol gael ei benodi gan yr Awdurdod/ Cleient ac nid gan y contractwr. Rhaid i hyn gael ei drefnu trwy'r Swyddog Asbestos a Gweithlu.
- Rhaid hysbysu'r Swyddog Asbestos a Gweithlu am bob darn o waith ar ddeunyddiau sy'n cynnwys asbestos a'i wneud yn ôl trefniant ag ef/hi. Ym mhob achos, 'rhaid dilyn proses ganiatâd y Landlord cyn dechrau unrhyw waith (gan gynnwys , er enghraifft, addurno, gosod carpedi, etc.) newid defnydd neu geblo data' ar gychwyn y syniad o unrhyw waith).

## 1.8 Mae contractwyr yn gyfrifol am:

- Wirio'r gofrestr asbestos ar y safle ac unrhyw arolwg Adnewyddu / dymchwel cyn dechrau unrhyw waith.
- Sicrhau bod pob un o'r staff a gyflogir ganddynt mewn unrhyw waith yn cael gwybod am y gofrestr/arolwg a lleoliad unrhyw ddeunyddiau asbestos o fewn cwmpas y gwaith.
- Sicrhau bod unrhyw waith a allai darfu ar neu ddifrodi deunydd sy'n cynnwys asbestos yn cael ei osgoi;
- Ble mae gwaith yn golygu gweithio ar ddeunyddiau sy'n cynnwys asbestos, rhaid cyflwyno datganiad dull penodol / cynllun gwaith ac asesiadau risg at y Gwasanaethau Eiddo cyn i unrhyw waith gydag asbestos ddechrau.
- Oedi gwaith a gofyn am gyngor gan y Swyddog Asbestos a Gweithlu os canfyddir deunyddiau yr amheuir eu bod yn cynnwys asbestos yn ystod y gwaith;
- Cadw at y Trefniadau ar gyfer rheoli asbestos;
- Dweud yn syth wrth y Swyddog Asbestos a Gweithlu am unrhyw ddeunyddiau sy'n cynnwys asbestos pan fo'r deunyddiau wedi cael eu tarfu neu eu difrodi, neu pan fo gwaith yn debygol o ddigwydd a allai amharu ar ddeunyddiau o'r fath neu pan fo deunyddiau yr amheuir eu bod yn cynnwys asbestos wedi eu nodi, ond heb gael eu rhestru yn y gofrestr asbestos.

# 2. Camau gweithredu

## 2.1 Arolygon Asbestos

### 2.1.1 Caffael

Mae pob arolwg yn cael eu sicrhau trwy archebion sefydlog corfforaethol ac yn cael eu gwirio o ran ansawdd gan y Swyddog Asbestos a Gweithlu.

### 2.1.2 Adroddiadau Arolygon

- Bydd gan bob adeilad sy'n eiddo i ac a feddiannir gan Dorfaen Arolwg Rheolaeth Asbestos yn unol â HSG 264.
- Mae'r Arolwg Rheolaeth yn arolwg nad yw'n fewnwthiol, sy'n nodi'n weledol presenoldeb, natur a maint yr asbestos yn yr adeilad. Mae samplau'n cael eu casglu wedyn a'u dadansoddi i asesu presenoldeb asbestos mewn labordy wedi ei achredu gan UKAS. Nid yw'n arolwg cynhwysfawr a dylid tybio bod asbestos yn bresennol ym mhob man nad ydynt yn cael eu cynnwys yn yr arolwg (er enghraifft oherwydd cyfyngiad ar fynediad - dylid marcio'r mannau yma yn adroddiad yr arolwg).
- Bydd manylion unrhyw waith diddymu a wneir yn cael ei nodi gan y Swyddog Asbestos a Gweithlu yn electronig ar y system Ffibrosis Ysgyfeiniol. Bydd copi newydd ar ffurf bapur o'r gofrestr a'r asesiad risg yn cael eu rhoi i reolwr yr eiddo.
- Oherwydd hyn, gofynnir i reolwyr beidio â gwneud copïau o'r arolwg papur.
- Ni fydd deunyddiau' sy'n cynnwys asbestos yn rhan o adeiladau a adeiladwyd ar ôl 2000, ond bydd datganiad rheolaeth asbestos ar y safle sy'n cyfeirio at hyn.
- Bydd angen arolwg mwy mewnwthiol ar gyfer unrhyw waith a fydd yn cynnwys dymchwel, gwaith adnewyddu, ceblo sylweddol a gwaith isadeiledd neu waith y tu allan i gwmpas yr arolwg rheolaeth, arolwg a elwir Arolwg Adnewyddu / Dymchwel.

## 2.2 Asesiad Risg

Ar ôl yr arolwg asbestos, bydd asesiad risg i benderfynu'r risg o ddifrod i unrhyw Ddeunyddiau sy'n Cynnwys Asbestos gan ystyried math o asbestos, cyflwr, triniaeth, defnydd a meddiannaeth yn cael eu creu a fydd yn sefydlu'r rheolaethau y mae eu hangen i reoli asbestos yn unol â deddfwriaeth gyfredol. Bydd yr asesiadau risg yma'n arwain at benderfyniad ar y camau angenrheidiol i reoli asbestos - naill ai:

- Gwaredu asbestos
- Trin asbestos a'i reoli'n barhaus
- Rheolaeth yr asbestos yn y safle

## 2.3 Cynllun Rheoli Asbestos

Bydd y Swyddog Asbestos a Gweithlu yn creu cynllun rheoli asbestos (Rhan 2) yn benodol ar gyfer pob eiddo.

Bydd pob rheolwr eiddo yn derbyn y cynllun rheoli asbestos a fydd yn cynnwys:

- Tudalen flaen yn gofyn am nodi:
  - Deiliad dyletswydd yr Eiddo
  - Dirprwy ddeiliad dyletswydd yr Eiddo
  - Lleoliad y Gofrestr Asbestos
- Cyfarwyddyd ar ddefnydd o'r cynllun rheoli asbestos a'r gofrestr
- Nodiadau cyfarwyddyd i reolwyr eiddo ynglŷn â rheolaeth asbestos
- Matrics gofynion hyfforddiant rheolaeth asbestos
- Gweithdrefn argyfwng asbestos
- Rhestr wirio o reolwyr eiddo gael i'w defnyddio i wirio eu bod wedi ystyried a gweithredu'r holl drefniadau rheoli asbestos
- Copi o'r asesiad risg yn dangos Deunyddiau sy'n Cynnwys Asbestos a'r gofynion ar gyfer eu rheoli.
- Taflen monitro cyflwr asbestos

Bydd y Cynllun Rheoli Asbestos yn cael ei roi i'r rheolwr eiddo a phob person a ddynodir yno sydd â chyfrifoldebau o ran rheoli asbestos ar y safle. Bydd y cyflenwad yn rhoi cyfarwyddyd i ddeiliad dyletswydd am ofynion ein Trefniadau ar gyfer rheoli asbestos, y cynllun rheoli asbestos, y gofrestr asbestos a phroses a ffurflen yr awdurdod dyddiol i weithio.

## 2.4 Y Gofrestr Asbestos

Bydd y Swyddog Asbestos a Gweithlu yn creu cofrestr asbestos ar gyfer pob eiddo a fydd yn cynnwys:

- Cyflwyniad
- Copi o'r gweithdrefnau argyfwng
- Cyfarwyddiadau ar gyfer defnyddio'r gofrestr
- Hysbysiad o fannau cyfyngedig a nodiadau cyffredinol
- Copi o'r canlyniadau sampl asbestos yn dangos samplau cadarnhaol,

negyddol a'r lleoliadau (y gofrestr)
- Copïau o'r cynlluniau llawr y dangos rhifau ystafelloedd etc.
- Copïau o dystysgrifau o ddadansoddiad ac unrhyw luniau o leoliadau samplau.

Dogfen ysgrifenedig yw'r gofrestr sy'n dangos lleoliad, math a chyflwr unrhyw ddeunyddiau asbestos sy'n cael eu hamau neu sydd wedi eu nodi. Rhaid i'r ddogfen gael ei darllen gan bob person sy'n gwneud gwaith ar yr eiddo ac fe'i defnyddir ar gyfer rheolaeth dydd i ddydd o'r asbestos.

Bydd y Gofrestr Asbestos yn cael ei rhoi i'r rheolwr eiddo a phob person a ddynodir yno sydd â chyfrifoldebau o ran rheoli asbestos ar y safle. Bydd y cyflenwad yn rhoi cyfarwyddyd i ddeiliaid dyletswydd am ofynion ein Trefniadau ar gyfer rheoli asbestos, y cynllun rheoli asbestos, y gofrestr asbestos i weithio proses a ffurf.

## 2.5 Mannau Cyfyngedig o ran Asbestos

Mae gan nifer fach o eiddo fannau a ddynodir yn Fannau Cyfyngedig o ran Asbestos oherwydd mae i unrhyw waith i neu amharu ar y deunyddiau yma yn y mannau yma risg uchel o ddinoethiad asbestos i'r rheiny sy'n gwneud y gwaith ac, wedyn, meddianwyr yr adeilad. Os, ar ôl gwirio'r Gofrestr Asbestos, dangosir fod yr adran weithio arfaethedig yn un sy'n gyfyngedig **NI DDYLID GWNEUD UNRHYW WAITH , HYD YN OED GWAITH ARGYFWNG.**

Rhaid cysylltu â'r Ddesg Help Eiddo ar 01495 766706 i drefnu Trwydded i Weithio i weithwyr sydd wedi eu hyfforddi'n briodol.

Bydd trwydded i weithio mewn mannau cyfyngedig yn cael ei rhoi gan y syrfëwr rheolaeth asbestos neu uwch bersonau o fewn rheolaeth eiddo (yn ei absenoldeb), ar ôl asesu cynllun gwaith addas / datganiad dulliau o'r contractwr arfaethedig.

## 2.6 Caniatâd y Landlord

Rhaid i bob rheolwr eiddo neu eraill sydd am wneud y gwaith canlynol wneud cais am ganiatâd y Landlord i wneud y gwaith:

- Prosiectau Cynnal a Chadw a Gynllunnir – angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â gofynion statudol ac ar gyfer cyfansoddiad yr adeilad, cydrannau strwythurol ac adnewyddu offer sydd wedi heneiddio. Ble mae gwasanaethau eiddo yn gwneud y gwaith, does dim angen cais am ganiatâd.

- Gwaith Adnewyddu Adeiladau neu waith dymchwel - gwella, newid ac adnewyddu rhan neu'r cyfan o strwythur sy'n cwmpasu pob darn neu ran o bob un. NODER, mae addurno, gosodiadau (silffoedd, hysbysfyrddau, gosod camerâu Cylch Cyfyng etc.) i gyd yn dod o fewn gwaith adnewyddu ac mae angen caniatâd y landlord felly

Rhaid i bob cais gael ei wneud ar gychwyn cynllunio'r prosiect. Rhaid i hyn fod o leiaf chwe wythnos cyn y bwriad i ddechrau'r gwaith. Rhaid i ymgeiswyr nodi bod rhaid gadael amser rhesymol i gwblhau unrhyw gamau a allai godi o'r ymateb i'r cais CYN dechrau gwaith. Dylid cynnwys hyn yng nghynllun y gwaith ac felly ni fyddai'n rhesymol cyflwyno ffurflen ganiatâd y landlord a bwriadu dechrau gwaith cyn neu ar ôl yr amserlen o chwe wythnos uchod.

Rhaid i ysgolion wneud cais at yr Adran Flaengynllunio ar gyfer caniatâd y landlord

Rhaid i eiddo nad yw'n ysgol wneud cais at y swyddog perthnasol a nodir yn ffurflen gais .

Bydd proses ganiatâd y Landlord yn sicrhau bod y person sy'n ystyried gwaith yn cael gwybod am Reoliadau, Cyfarwyddyd, Polisïau a Threfniadau perthnasol er mwyn gwneud y gwaith mewn ffordd sy'n cydymffurfio

## 2.7 Gwaith ar ddeunyddiau sy'n cynnwys asbestos

Bydd pob gwaith ar ddeunyddiau o'r fath yn cael eu caffael gan y tîm Cynnal a Chadw Eiddo. Nid oes caniatâd i unrhyw bobl eraill gaffael gwaith ar ddeunyddiau sy'n cynnwys asbestos.

Bydd y Swyddog Asbestos a'r Gweithlu yn:

- Asesu a oes angen contractwr wedi ei drwyddedu i weithio gydag asbestos ar y gwaith
- Asesu a yw'r gwaith wedi ei gategoreiddio fel gwaith nad yw'n drwyddedig ac mae'n rhaid dweud amdano yn unol â thaflen 'Asbestos Essentials' 'A0' 'Advice On Non-licenced Work with Asbestos' gan y Gweithgor Iechyd a Diogelwch.

Bydd pob gwaith sy'n gysylltiedig ag asbestos yn cael ei wneud gan gontractwyr allanol trwyddedig - wedi eu cyflogi gan y Swyddog Asbestos a'r Gweithlu

## 2.8 Ffurflen Awdurdod Dyddiol i Wneud Gwaith

Dylai'r "Ffurflen Awdurdod Dyddiol i Wneud Gwaith" gael ei chwblhau gan unrhyw un sy'n gwneud gwaith ar unrhyw adeiladwaith sy'n eiddo i

Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, gan gynnwys contractwyr, Staff y Cyngor, gwirfoddolwyr a gofalwyr/staff rheoli'r safle

Mae gan y rheolwr eiddo y cyfrifoldeb am y broses awdurdodi dyddiol i weithio a rhaid iddo/i sicrhau bod yna, ar bob adeg, digon o staff ar y safle sydd wedi eu hyfforddi i weithredu'r broses. Mae'r ffurflen yn gofyn i'r rheolwr eiddo a'r contractwr fodloni eu hunain bod y prosesau a'r gwiriadau canlynol wedi cael eu dilyn:

- Bod y gofrestr asbestos wedi ei gwirio i weld a oes unrhyw ddeunyddiau sy'n cynnwys asbestos wedi eu nodi neu wedi eu tybio o fod yn bresennol yn yr ardal ble fydd y gwaith yn cael ei wneud
- Bod y bobl ar y safle sy'n gwneud y gwaith wedi eu hyfforddi i'r lefel sy'n angenrheidiol i wneud y gwaith
- Os nad yw'n debygol y bydd y gwaith yn debygol o darfu ar asbestos yna bydd yr awdurdod dyddiol yn cael ei roi gyda chyfarwyddyd clir i atal gwaith os caiff unrhyw asbestos ei ganfod.

Ar gyfer safleoedd nad ydynt yn cael eu rheoli ble, efallai, nad oes cofrestr asbestos ar y safle bydd disgwyl i'r contractwr gysylltu â'r ddesg gymorth i gael mynediad a chael ffurflen awdurdod dyddiol i weithio.

## 2.9 Hyfforddiant

### 2.9.1 Mae angen i'r Swyddog Asbestos a'r Gweithle fod â'r cymwyseddau canlynol:

- Modiwlau Gallu BOHS
- P402 Arolygon Adeiladau a Samplo Swmp o asbestos
- P405 Rheolaeth asbestos mewn adeiladau.
- P407 Rheolaeth asbestos mewn adeiladau, gofynion deiliad y ddyletswydd.

### 2.9.2 Bydd gofyn i'r staff canlynol ymgymryd â Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Asbestos:

- • Dylunydd DRhA
- • Cydlynydd DrhA
- • Cynrychiolydd y Cleient
- • Uwch Arolygwyr
- • Rheolwyr Prosiect
- • Staff SRS sy'n ymwneud â chaffael gwaith ceblo
- • Staff y safle a ddynodir â chyfrifoldebau deiliad dyletswydd gan y Rheolwr Eiddo

**2.9.3** Bydd gofyn i Reolwyr Eiddo ymgymryd â hyfforddiant ar-lein corfforaethol Rheolwr Eiddo a fydd yn cynnwys cyfrifoldebau deiliad y ddyletswydd a'r gofynion yn y Trefniadau yma i reoli asbestos.

Cyflenwir hyfforddiant Ymwybyddiaeth Asbestos gan ddarparwr achrededig gan UKATA a'i adnewyddu yn unol â Rheoliad 10 y Rheoliadau Rheolaeth Asbestos. Bydd rhaid i'r holl staff ymgymryd â hyfforddiant wyneb yn wyneb gan ddarparwr cofrestredig gyda UKATA i gychwyn. Rhoddir hyfforddiant adnewyddol ar-lein trwy Ddatblygiad Sefydliadol am y ddwy flynedd ddilynol ar ôl yr hyfforddiant cychwynnol. Yn y bedwaredd flwyddyn, bydd gofyn i'r aelod o staff ymgymryd â'r hyfforddiant wyneb yn wyneb eto, a bydd y adnewyddol yn cael ei ailadrodd wedyn (trwy Ddatblygiad Sefydliadol) am y ddwy flynedd nesaf, ac felly bydd y cylch o hyfforddiant Ymwybyddiaeth Asbestos parhaus yn mynd digwydd

**2.9.4** Bydd y Swyddog Asbestos a'r Gweithlu yn cael ei hysbysu ac yn cael gwybod am unrhyw benodiadau newydd fel Rheolwr Eiddo, fel y gall gwrdd â nhw a dweud wrthyn nhw am eu dyletswyddau mewn perthynas ag asbestos.

**2.9.5** Bydd pob contractwyr sy'n gwneud gwaith ar eiddo'r cyngor yn cael eu hachredu gan gynllun aelodau SSIP a bydd ganddyn nhw'r lleiafswm hyfforddiant ymwybyddiaeth asbestos.

Bydd Contractwyr sy'n gwneud gwaith fel rhan Fframwaith Gwasanaethau Eiddo wedi cael eu hyfforddi yn y Trefniadau yma.

# 3. Gweithdrefnau

## 3.1 Gollwng di-reolaeth o ffibrau asbestos:

Os digwydd gollwng di-reolaeth o ffibrau asbestos bydd camau yn cael eu cymryd yn syth i leddfu'r effeithiau hynny; adfer y sefyllfa at yr hyn sy'n arferol a dweud wrth unrhyw bobl sy'n cael eu heffeithio.

Mae'r Siart Llif yn Atodiad 1 yn gynllun o'r camau sydd i'w cymryd ar gyfer pedwar senario cyffredin sy'n dangos sut mae maint y broblem yn arwain at benderfyniadau a chamau ar hyd llwybr penodol. Mae'r defnydd o'r Siart Llif yn bwysig a bydd yn cael ei gynnwys mewn sesiynau hyfforddi.

## 3.2 Cofnod o Ddatguddiad a Gwiriadau Iechyd

Os digwydd i staff gael eu gwneud yn agored i ffibrau asbestos uwchben y Terfyn Rheolaeth oherwydd dihangfa heb ei rheoli, bydd Rheolwr y Tîm Iechyd a Diogelwch a'r Tîm Iechyd Galwedigaethol (Rheolwr AD ar gyfer Gweithrediadau) yn cydlynu trefniadau gydag Iechyd Galwedigaethol ar gyfer cadw cofnodion iechyd priodol a goruchwylio meddygol yn unol â L143, ac adrodd o dan RIDDOR 2013.

Cynigir cynghori i unrhyw aelodau o staff y gwyddys neu yr amheuir eu bod wedi bod yn agored i ddeunyddiau asbestos ar ôl ymgynghoriad gyda'r Tîm Iechyd Galwedigaethol.

## 3.3 Dweud am Ddifrod

Mae gan staff gyfrifoldeb cyffredinol i ddweud am ddifrod strwythurol a darnau gosod a gosodiadau diffygiol wrth y Ddesg Gymorth Eiddo. Cyfrifoldeb staff a chontractwyr yw dweud am unrhyw ddeunyddiau sy'n cynnwys asbestos tybiedig neu wedi eu difrodi wrth y Ddesg Gymorth Eiddo a dechrau'r weithdrefn argyfwng.

# 4. Monitro ac Adolygiad

## 4.1 Monitro Cyflwr deunyddiau sy'n cynnwys Asbestos

Bydd Rheolwyr Adeiladau yn penodi person i gwblhau arolygon o Ddeunyddiau sy'n Cynnwys Asbestos sydd ar y safle. Bydd y person yma wedi eu hyfforddi mewn Ymwybyddiaeth Asbestos ac wedi cael cyfarwyddyd ar sut i wneud arolygiadau gan y Swyddog Asbestos a'r Gweithlu

Bydd arolygiadau'n cael eu gwneud yn chwarterol mewn eiddo nad yw'n ysgolion a phob tymor ar gyfer ysgolion. Rhaid cofnodi pob arolwg ar y Daflen Cofnodi Cyflwr Asbestos o fewn y cynllun rheolaeth asbestos a dweud am unrhyw ddirywiad wrth y Ddesg Gymorth Eiddo.

Bydd monitro Deunyddiau sy'n Cynnwys Asbestos mewn eiddo sy'n cael eu gosod ar brydles i drydydd parti yn rhan o ofynion y brydles

Bydd monitro Deunyddiau sy'n Cynnwys Asbestos mewn eiddo sy'n cael eu gosod ar brydles i Denant arall i Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn cael ei wneud gan y Rheolwr Adeiladau.

## 4.2 Ail-arolygu

- Bydd y Swyddog Asbestos a Gweithlu neu ymgynghorydd allanol cymeradwy yn ail-arolygu pob adeilad yn flynyddol i'r safon yng nghyfarwyddyd y Gweithgor Iechyd a Diogelwch HSG264.

## 4.3 Bydd monitro cydymffurfiad â'r Trefniadau yma yn cael eu gwneud trwy:

- Arolygiadau Chwarterol/Tymhorol gan Reolwyr Adeiladau
- Ail-arolygiadau blynyddol gan y Swyddog Asbestos a'r Gweithlu neu ymgynghorydd allanol cymeradwy
- Archwiliadau gan y Tîm Iechyd a Diogelwch/ Adran Archwilio Mewnol

## 4.4 Adolygiad o Drefniadau i Reoli Asbestos

Bydd y Trefniadau yma yn cael eu hadolygu pan nad yw'r materion y mae'n ymwneud â nhw yn berthnasol bellach, a phob blwyddyn pa beth bynnag.

## Atodiad Un

# GWEITHDREFNAU ARGYFWNG

**Difrod a Amheuir i Ddeunyddiau sy'n cynnwys Asbestos**

↓

**STOPIWCH unrhyw waith yn syth a gadewch y deunydd i fod**

↓

**Sicrhewch nad oes dim yn cael ei darfu na'i symud o'r ardal - PEIDIWCH a cheisio glanhau. Caewch yr ardal a rhwystrwch fynediad**

↓

**Y Tu Allan i Oriau?**
17.00-08.30 Llun-Iau
16.30 Dydd Gwener tan 08.30 y dydd Llun canlynol
Ffoniwch 01495 766706 neu 01495 762200 a gofynnwch am y swyddog eiddo ar-alw

**Oriau Gwaith Arferol?**
17.00-08.30 Llun-Iau
08.30-16.30 Gwe
Ffoniwch y Ddesg Gymorth Eiddo 01495 766706

↓

Bydd y Swyddog Asbestos a Gweithlu neu'r swyddog ar alwad yn ymweld â'r ardal and yn penderfynu a oes Deunyddiau sy'n Cynnwys Asbestos yn debygol o fod yn bresennol – trafodwch gyda nhw beth sydd angen i'w wneud i wneud yr ardal yn ddiogel a gweithredu argymhellion, gan gynnwys samplo a phrofion awyr yn ôl y gofyn. Dywedwch am y digwyddiad wrth Reolwr y Tîm Iechyd a Diogelwch (Rheolwr AD Gweithrediadau) yn syth

↓

Asbestos yn Bresennol?

**Ie** → Profion awyr yn dangos lefelau ffibrau o dan y terfyn rheolaeth (fel pennir yn y Rheoliadau Rheolaeth Asbestos yn y Gwaith)?
- Ie → Glanhau'r ardal yn briodol fel cyfarwyddir gan y Swyddog Asbestos a'r Gweithlu

**Na** → Parhewch â'r gwaith fel bwriadwyd
- Na → Glanhau'r ardal yn briodol fel cyfarwyddir gan y Swyddog Asbestos a'r Gweithlu

↓

Ymchwilir i'r digwyddiad gan Reolwr y Tîm Iechyd a Diogelwch (Rheolwr AD ar gyfer Gweithrediadau a Rheolwr Adeilad ac unrhyw bersonau perthnasol (e.e. Swyddog Asbestos a Gweithlu)